# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2ail Mehefin 2026

**Croeso a Gweddi** - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Gareth Hughes.

**Presennol** - Cadeirydd Gareth Hughes ynghyd a'r Cynghorwyr, Elwyn Jones, Elen George, Emma Chappell, Idris Thomas, Gareth W Griffiths, Sasha Williams a Berwyn Parry Jones

**Ymddiheuriadau** - Jane Pierce, Rhian Evans-Hill, Lowri James.

## Datgan Buddiant

Dim

## Cofnodion 5ed Fai 2026

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Elwyn Jones (1) Idris Thomas (2)

## Materion o'r Cofnodion

**Banc**

Mae'r arwyddwyr Newydd wedi eu hychwanegu bellach ar y cyfrifon yn y banc.

**Cofnodion**

Yn Dilyn cais gan rhai o bentrefwyr Brynrefail, mae'r cofnodion bellach yn ddwyieithog ar wefan y Cyngor.

## Gohebiaeth a Materion Eraill

Ni dderbyniwyd dim i law.

Cadeirydd……………………………………………….

## Cynllunio

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

***C26/0318/18/DT - Creigle, Brynrefail***

*Estyniad unllaw i'r edrychiad blaen - Dim Gwrthwynebiad*

***CAS-04680-C6C8RO - Tŷ Ni, Gallt y Foel***

*Apêl i ddiddymu Adran 106 (Tŷ Fforddiadwy) o ganiatâd C07A/0095/18/LL*

*Ni does gwybodaeth o'r Newydd wedi ei gyflwyno, ac felly nid yw barn y Cyngor wedi newid*

## *Llwybrau*

*Bu i'r clerc gael trafodaeth hir ynglŷn â gwelliannau i Lwybrau bydd y Cyngor yn gobeithio eu gwella eleni.*

*Mae'r bont a'r llwybr sydd yn mynd heibio'r hen ysgol yn Llanddeiniolen bellach wedi ei chwblhau, bydd y clerc yn cysylltu er mwyn cael torri'r tyfiant ar y llwybr nawr.*

*Rhif 10 Llwybr o Gae Pêl Droed Bethel tuag at Dyddyn Teg*

*Rhif 13 Llwybr o Stad Newydd I Lôn gefn, Bethel*

*Llwybr 33 a 34 Deiniolen*

*Llwybr Incline o Minafon, Clwt y Bont i fyny i Allt y Foel.*

*Llwybr heibio Blaencae rhwng Deiniolen a Penisa'r-waun*

*Mae'r Cyngor Cymuned hefyd wedi adnabod:*

*Llwybr 99 a 100 O glwt y Bont heibio Celyn a Chelyn Isaf i fyny i lôn Deiniolen*

*Llwybr o Snodon View i Glwt y Bont a drosodd i Frynrefail*

*Llwybr o Gefn Coch i Dan y Buarth, Deiniolen*

*Dal angen cadarnhad o Lwybr Gwynfryn, Carreg y Gath, Rhiwlas a Thŷ Mawr - Deiniolen*

### *Ffurflen Flynyddol Awdit*

Derbyniwyd y ffurflen flynyddol yn ôl ynghyd ac adroddiad o'r awdit mewnol. Hoffai'r Cyngor ddiolch i'r clerc am drefnu hyn, ac i'r adran yng Nghyngor Gwynedd am gydweithio gyda'r clerc i baratoi mewn da bryd i'r Cyngor.

Derbyniwyd y ffurflen yn gywir a chymeradwywyd fod datganiad y cyfrifydd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor, ac wedi ei ardystio gan y Swyddog Ariannol.

Cadeirydd…………………………………………….

**Adolygu Polisïau**

**Datganiad Bio Amrywiaeth**

Rydym wedi ychwanegu ein datblygiadau eleni i'r cynllun yma.

**Polisi Cynllun Hyfforddiant**

Penderfynwyd fod y cynllun dal yn dderbyniol i'n hangen. Ond nodwyd fod angen i bob aelod wneud hyfforddiant fel bo'r angen. Y clerc i holi os oes cyrsiau ar bolisïau yn benodol.

**Grant Cynghorau Cymuned**

Mae Sasha wedi bod yn ymchwilio i mewn i wahanol fathau o Fyrddau dehongli i osod mewn mannau lle mae golygfeydd o'r mynyddoedd, ac yn nodi enwau cywir o'r mynyddoedd yn yr ardaloedd. Mae Sasha yn fodlon ymgymryd â hyn a chysylltu gydag Alys I roi'r ffurflen gais i mewn erbyn 15fed o Fehefin. Diolch I Sasha am hyn.

## Eisteddfod yr Urdd

Gyda newyddion y bu safle Eisteddfod yr Urdd 2028 yn dod i'r Cylch I Ffordd Bethel, Caernarfon, mae rhaid dechrau ar baratoadau. Mae Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod ers blwyddyn, a nawr, bydd yn holl bwysig i sefydlu pwyllgorau apêl leol i drefnu digwyddiadau codi arian ayyb. Mae ein hardal ni wedi rhannu i Ddeiniolen a Dinorwig, Penisa'r-waun a Brynrefail, Bethel a Llanddeiniolen a Rhiwlas a Phentir. Yn arferol, bydd y Cyngor Cymuned yn cyfrannu swm tuag at dargedau o fewn y plwyf, fydd yn hwb i'r pwyllgorau hynny. Wrth gwrs mae bosib i unigolion brynu tlws er cof neu fel rhodd fydd hefyd yn cyfrannu ac yn mynd yn erbyn targed yr ardaloedd hynny. Os oes rhywun angen fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r clerc.

## O Gwmpas y Bwrdd

**Arwyneb ffordd Tai Caradog**

Mae'r ffordd yma dal mewn sobor o stad yn Dilyn cael ei arwyneb. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd I weld beth yw'r diweddaraf.

**Pan y Golwg, Deiniolen**

Mae'r imp yn y ffordd gyda thwll mawr reit yn ei ganol sydd angen ei lenwi.

Cadeirydd…………………………………………….

**National Grid a Ffordd Llanberis I Bentir**

Mae gwir angen mynd i gysylltu â swyddog sydd yn cydweithio ar y prosiect yma, ac angen trefnu ei fod yn dod i ymweld i roi diweddariad i'r Cyngor

**Llwybr Beicio o Fethel I Gaernarfon**

Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i hyn fynd yn ei flaen. Mae cynghorydd Bethel wedi bod yn gwthio ar hyn, ond ddim yn siŵr lle da ni arni erbyn hyn. Y clerc i gysylltu

## Cadarnhau Taliadau:

**Awdurdodwyd y taliadau ar y daflen fisol am Fehefin 2ail 2026**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar yr 7fed  o Orffennaf

Cadeirydd……………………………………………….